

Wynebu sialens y dechnoleg newydd

Mae angen diwygio cyfundrefnau cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol a moesol, yn ôl yr Athro Gareth Wyn Jones...

AMHOSIB yw gwranddo neu ddarllen y newyddion heb ddiflasu. Terfysgoedd yn Nhwrci a Brasil, lladd di-ddiwedd yn Afghanistan, Irac a Syria, llifogydd neu dannau mewn mannau eraill. Marchnadoedd arian simsan.

I'r rhai sy'n poeni am newid hinsawdd, y cwestiwn mawr: beth fydd tynged lâ yr Arctig yn haf 2013? A fydd mor hunllefus â 2012? Cawn weld! Dim syndod bod ambell i bapur yn canolbwyntio ar yr hetiau yn Ascot neu fanylion Wimbledon a'r Llewod neu misdimanas y 'sêr'.

Yn nyddiau newyddion pedair awr ar hugain, mae fel petai holl helyntion a gwallgofrwydd dynoliaeth yn ein gorchuddio yn ddyddiol ac, o dro i dro, yn ein llethu.

Tu ôl i hyn oll mae 'na chwyldro gwyddonol - sef ein galluoedd electroneg syfrdanol. Technoleg sydd wedi gweddnewid ein bywydau; crebachu ein byd - ein globaleiddio!

MOR HAWDD SYMUD PRES I HAFANAU TRETH

Fel pob chwyldro, gwyddonol a gwleidyddol fel ei gilydd, mae 'na elfennau cadarnhaol a rhai negyddol. Ar un llaw mae modd 'scepio' a cael sgwrs gyda chyfeillion yn Vancouver, fel pe baent yn dal yn byw yn Nhyffryn Nantlle. Ar y llaw arall, mae modd i'r gwyrddoedig yn ein cefn gwlad borthi eu tueddiad bas mewn ffyrdd na fyddai'n bosib chwarter canrif yn ôl, gyda chanlyniadau erchyll.

Ond mae llai o sôn am gyfraniad techolegau electroneg i'n problemau economaidd ac anghyliadwyedd. Cofiaf yn dda wrth weithio yn Lesotho croesi'r ffin i Dde Africa ac o fewn ychydig eiliadau defnyddio'r "twll yn y wal" i dderbyn arian parod lleol trwy ddefnyddio'r un cerdyn a'r un rhifau ag ar y Stryd Fawr ym Mangor neu Gaerdydd. Syndod i'w ryfeddu ato degawd yn ôl ond digon cyffredin rwan.

Ond o ganlyniad, mae'n llawn mor hawdd i gwmnïau ac unigolion symud eu pres a'u hadnoddau i hafanau treth mewn chwinciad. Maent yn gweithdrefnu o un gwlad ond o un arall, megis Google.

Prin bod gwell enghraifft o rym technoleg nac Amazon. Mae'r cwsmer yn defnyddio'r we i archebu. Mae'r cwmni yn prysuro i awtomeiddio cyrchu'r nwyddau o fewn ei ystordai anferth. Daw'r llyfrau a'r tegannau i'r cwsmer (sydd wedi talu gyda dulliau electronig), trwy'r post sy'n lled awtomatig. Dulliau electronig sy'n cadw trefn ar y stoc a'r llif arian ac yn galluogi'r busnes i sicrhau bod ei drethi yn fach, fach iawn, a rhif y rhai a gyflogir hefyd yn fach. Ond mae'r rheolwyr yn mwynhau ffortiwn.

Rydym fel unigolion yn derbyn bargaen ond sut yn y byd mae masnachwr bach lleol yn cystadlu a sut mae llywodraethau am ariannu ein hysgolion a'r gwasanaeth iechyd heb drethi?

ARIAN YN CAEL EI SUGNO ALLAN O'N CYMDOGAETHAU

Beth am ddylanwad y dechnoleg ar ein harchfarchnadoedd bwyd? Gyda chodau bar a chyfundrefnau electronig i reoli ystordai anferth a dosbarthiad soffistigedig, mae modd cyflenwi bwyd i archfarchnadoedd dros Brydain o ychydig ganolfannau. Dibynnir ar gyflenwi 'jyst mewn pryd' gyda dyddiau yn unig wrth gefn. Mae'n anodd iawn i gyflenwyr a chynhyrchwyr lleol dorri mewn i'r gadwyn fwyd ac mae'r milltiroedd bwyd yn pentyrru.

Gwerth holi beth digwyddith i'n harian. Mae canran yn talu cyflogau lleol ond canran i'r prif swyddfeydd, rhai yn Llundain; canran arall i'r cyfranddalwyr yn y Ddinas a wedyn i bedwar ban byd.

Cronfa Llywodraeth Norwy yw un o gyfranddalwyr mwyaf Tesco. Bach iawn yw y gwaddol lleol. Felly nid annheg yw meddwl bod rhan sylweddol o'r arian a werir yn cael eu sugno allan o'r gymdogaeth. Mewn ardaloedd tlawd wedyn, gwelir y llywodraeth yn cynnal y gymdogaeth gyda thaliadau dâl a lwfansau eraill. Cylch dieflig o nychdod!

Wrth gwrs, ni ellir dad-ddarganfod y dechnoleg. Ond mae'n amlwg bod sialens enfawr i diwygio ein cyfundrefnau economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol ac yn wir moesol i gadw i fyny gyda chyflymder datblygiadau gwyddonol a thechnolegol.

Mehefin 27, 2013